CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 5ed o Dachwedd 2019 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Arwel Evans

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Ieuan Davies, Llinos Davies, Robin Phillips, Lon Davies,

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Sarah-Jane Absalom

Cyfarfod - 01.10.19

Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Enid Cole fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

57. Hyfforddiant Defibriliwr yn Ffynnongroes wedi bod yn llwyddianus iawn. Arwel wedi son am rhai pwyntiau I ofalu amdano. Helen I gysylltu a Julie Charlton ynglyn a contract y Defibriliwr yn Eglwyswrw. Cynigodd Llinos Davies ac eiliodd Lon Davies i'r Cyngor Cymuned archebu unrhyw pads ar gyfer y Defibriliwr ac mae na cynghorwyr yn mynd I gymeryd cyfrifoldeb pob mis I edrych a ydy pobeth yn iawn yn y Defibriliwr yn Ffynnongroes, Brynberian a Eglwyswrw.

58. Kiosk Ffynnongroes – Arwel I gysylltu a Iwan Ward ynglyn a peintio y kiosk yn wyrdd.

Gohebiaeth

59. Cyfanwsm yn y banc 25.10.19 – £3,440.76

60. Cyngor Sir Benfro – Berllan Eglwyswrw, ailosod to newydd a newid defnydd o asbestos I llechi. Wedi ei gymeradwyo yn amodol.

61. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Mr T Jackson and Ms S Wooster, Pantygraig, Brynberian cais ar gyfer adeiladu annedd newydd a dymchwel annedd bresennol. Pawb yn hapus gyda'r cais.

Unrhyw Fater Arall

62. Gwasanaeth y Cofio yn Eglwys St'Cristiolus dydd Sul Tachwedd y 10fed. Fe fydd Sarah-Jane Absalom yn gosod torch ar rhan y Cyngor Cymuned.

63. Soniodd y Cyng Cris Tomos ynglyn a newidiadau yn y system ailgylchu newydd.

64. Cyfarfod Blynyddol Clebran nos Llun 18 o Dachwedd. Croeso I pawb.

65. Cyngor Sir Benfro – Posteri am Newidiadau Gwastraff – Dosbarthwyd y wybodaeth ac fe fydd poster yn yr hysbysfwrdd.

66. Fe hysbysodd y Cyng Cris Tomos ynglyn a Cronfa Asedion gyda PLANED.

67. Cododd Ieuan Davies ynglyn a wes modd symud arwyddion cyflymder sydd ger Carnhuan nol ychydig tuag at Brian Llewellyn cyn y cyffordd ar y A487 Cyng. Cris Tomos I gysylltu a Emrys Llewellyn o Cyngor Sir Benfro.

68. Soniodd Helen ynglyn a arwyddion cyflymder sydd yn flachio gyda amserau Ysgol wedi ei osod yn anghywir. Cyng Cris Tomos yn cysylltu gyda swyddfa y Prifffordd.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 2il o Rhagfyr am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.35 y.h.